



Datganiad Prosesu Teg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Taliadau Uniongyrchol

Beth sy'n digwydd i wybodaeth a gedwir amdanoch chi? Eich hawliau chi a'n rhwymedigaethau ni i chi.

Sut Rydym yn Defnyddio Data Personol

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr (CBSPO) yn cael, dal, defnyddio a datgelu gwybodaeth am bobl (eu data personol), y camau a gymerwn i sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu, a hefyd mae'n disgrifio'r hawliau sydd gan unigolion o ran eu data personol a drafodir gan CBSPO.

Llywodraethir defnydd a datgeliad data personol gan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016. Fel y cyfryw mae'n ofynnol i Adran Taliadau Uniongyrchol CBSPO sicrhau ei fod yn trin pob data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Mae CBSPO yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn briodol er mwyn sicrhau a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion yn y Cyngor.

1. Pam rydym ni'n trin data personol?

Mae Adran Taliadau Uniongyrchol CBSPO yn prosesu gwybodaeth bersonol i'w galluogi i ddarparu amrediad o wasanaethau llywodraeth i bobl a busnesau lleol, sy'n cynnwys:

- Cynnal ein cyfrifon a'n cofnodion ein hunain
- Cefnogi a rheoli ein gweithwyr
- Hyrwyddo'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu

2. Pa fath/dosbarthiadau o ddata personol rydym yn eu trin?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall Adran Taliadau Uniongyrchol CBSPO gael, defnyddio a datgelu data personol gan gynnwys y canlynol:

- Manylion personol
- Manylion teuluol
- Ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Manylion ariannol
- Manylion cyflogaeth ac addysg
- Delweddau gweledol, ymddangosiad personol ac ymddygiad
- Gwybodaeth ffeiliau achos
- Manylion iechyd corfforol neu iechyd meddwl
- Tarddiad hil neu ethnig
- Troseddau (gan gynnwys troseddau honedig)
- Credoau crefyddol neu eraill o natur debyg



- Achosion troseddol, deilliannau a dedfrydau

Dim ond y data personol priodol sydd ei angen i gyflawni diben neu ddibenion penodol a ddefnyddir gan CBSPO. Gallai data personol fod yn wybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur, mewn cofnod papur h.y. ffeil, fel delweddau, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig e.e. delweddau teledu cylch cyfyng.

3. Ynghylch pwy y prosesir data

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall Adran Taliadau Uniongyrchol CBSPO gael, defnyddio a datgelu data personol am y canlynol:

- Cwsmeriaid
- Cyflenwyr
- Staff, pobl sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaeth
- Achwynwyr, ymholwyr neu eu cynrychiolwyr
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Gofalwyr neu gynrychiolwyr
- Troseddwyr a throseddwyr a amheuir
- Cynrychiolwyr sefydliadau eraill

Dim ond y data personol priodol sydd ei angen i gyflawni diben neu ddibenion penodol a ddefnyddir gan CBSPO. Gallai data personol fod yn wybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur, mewn cofnod papur h.y. ffeil, fel delweddau, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig e.e. delweddau teledu cylch cyfyng.

4. O ble rydym ni'n cael data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall Adran Taliadau Uniongyrchol CBSPO gael data personol o amrediad eang o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:

- Cynrychiolwyr cyfreithiol;
- Sefydliadau'r sector gwirfoddol;
- Sefydliadau cymeradwy a phobl sy'n gweithio gyda'r Cyngor;
- Archwilwyr;
- Llywodraeth ganolog, asiantaethau ac adrannau llywodraethol;
- Unigolion eu hunain;
- Perthnasau, gwarcheidwaid neu bersonau eraill sy'n gysylltiedig â'r unigolyn;
- Cyflogwyr presennol yr unigolyn, cyflogwyr o'r gorffennol neu ddarpar gyflogwyr;
- Cynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, cymdeithasol a lles;
- Sefydliadau addysg, hyfforddiant a chyrrff arholi;
- Cydweithwyr busnes ac ymgynghorwyr proffesiynol eraill;
- Gweithwyr ac asiantau CBSPO;
- Cyflenwyr, darparwyr nwyddau neu wasanaethau;



- Personau sy'n gwneud ymholiad neu gŵyn;
- Sefydliadau ac ymgynghorwyr ariannol;
- Llywodraeth leol;
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusenol;
- Yr Ombwdsman a'r awdurdodau rheoleiddio;
- Proseswyr Data yn gweithio ar ran CBSPO;
- Gwybodaeth sydd ar gael yn agored ar y rhyngwyd;
- Adrannau eraill o fewn y Cyngor.

Gall CBSPO hefyd gael data personol o ffynonellau eraill megis ei systemau teledu cylch cyfyng ei hun, neu ohebiaeth.

5. Sut rydym ni'n trin data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, bydd Adran Taliadau Uniongyrchol CBSPO yn trin data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn deg a chyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddefnyddir gennym ni neu ar ein rhan o'r ansawdd uchaf o ran cywirdeb, perthnasedd, digonolrwydd a diffyg gormodedd, yn cael ei gadw mor gyfredol â phosibl, wedi'i ddiogelu'n briodol, a'i fod yn cael ei adolygu, ei gadw a'i ddiinstrio'n ddiogel pan nad oes ei angen mwyach.

6. Sut rydym ni'n sicrhau diogelwch data personol?

Mae Adran Taliadau Uniongyrchol CBSPO yn cymryd diogelwch yr holl ddata personol o dan ein rheolaeth o ddifrif. Byddwn yn sicrhau bod mesurau polisi, hyfforddiant, mesurau technegol a gweithdrefnol priodol yn eu lle, gan gynnwys monitro archwilio a chywirdeb, i ddiogelu ein systemau gwybodaeth â llaw ac electronig rhag colli a chamddefnyddio data, ac ni fyddwn ond yn caniatáu mynediad atynt pan fo rheswm dilys i wneud hynny, ac yna dan ganllawiau llym ynghylch pa ddefnydd y gellir ei wneud o unrhyw ddata personol a gynhwysir ynddynt. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rheoli a'u gwella'n barhaus er mwyn sicrhau diogelwch cyfredol.

7. I bwy rydym ni'n datgelu data personol?

Weithiau mae angen i ni rannu gwybodaeth gyda'r unigolion yr ydym yn prosesu gwybodaeth amdanynt a sefydliadau eraill. Pan fo hyn yn angenrheidiol, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth. Yn dilyn, gweler disgrifiad o'r mathau o sefydliadau y gallai fod angen i ni rannu rhywfaint o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei phrosesu gyda hwy, am un neu fwy o resymau:

- Teulu, cydnabod neu gynrychiolwyr yr unigolyn yr ydym yn prosesu ei ddata personol
- Yr Ombwdsmon a gwasanaethau rheoleiddio
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Llysoedd *



- Heddluoedd
- Proseswyr data
- *Asiantaethau partner, sefydliadau cymeradwy ac unigolion sy'n gweithio gyda'r heddlu
- Gorfodi cyfraith ac awdurdodau erlyn
- Mentrau twyll lleol a chenedlaethol
- Cynrychiolwyr cyfreithiol, cyfreithwyr amddiffyn
- Bargyfreithwyr
- Broceriaid Yswiriant ac Yswirwyr
- Archwilwyr

8. Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol a gaiff ei drin gan CBSPO?

Mae gan unigolion wahanol hawliau yn cynnwys:

Hawl mynediad

Yn amodol ar eithriadau, gallwch gael copi o'ch data personol a gedwir gan y Cyngor. Mae copi o'r ffurflen gais ar gael gan:

O dan y Ddeddf, mae gennych hawl hefyd i gael cadarnhad p'un a yw'r data sy'n ymwneud â chi yn cael ei brosesu gan y Cyngor ai peidio. Os yw hynny'n wir, mae gennych hawl i'r wybodaeth ganlynol, yn amodol ar eithriadau:

- Pwrpasau a sail gyfreithiol y prosesu
- Y categorïau o ddata personol dan sylw
- Y derbynyddion y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod storio a ragwelir i'r data personol
- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael o ran ei darddiad.

** Sylwch fod 'prosesu' yn golygu gweithrediad neu set o weithrediadau a berfformir ar ddata personol megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adfer.*

Mae'n bosibl y bydd angen Prawf Adnabod (ID) ac unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i ddod o hyd i'r wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid gwneud unrhyw gais am y wybodaeth uchod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data, a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn mis.

Cywiro'r data

Gallwch ofyn i'r Cyngor gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â chi. Os yw'r data yn anghywir oherwydd ei fod yn anghyflawn, rhaid i'r Cyngor ei gwblhau os yr ydych yn mynnu ei fod yn gwneud hynny.



Dylid gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data, ac anfonir ymateb o fewn mis.

Dileu neu gyfyngu ar ddata persol

Gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu eich data neu gyfyngu ar unrhyw brosesu o'ch data, yn amodol ar eithriadau.

Dylid gwneud pob cais i'r Swyddog Diogelu Data. Yna bydd y Cyngor yn eich hysbysu p'un a yw'r cais wedi'i ganiatáu, ac os y'i gwrthodwyd, y rhesymau dros ei wrthod.

Yr hawl i beidio â bod yn destun i wneud penderfyniadau awtomataidd

Mae gennych yr hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio â bod yn destun i benderfyniad pan fo'n seiliedig ar brosesu awtomataidd a'i fod yn cynhyrchu effaith gyfreithiol neu effaith sylweddol debyg arnoch chi. Mae gennych hawl i fynegi'ch safbwynt a chael esboniad gan y Cyngor o'i benderfyniad a'i herio.

Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r hawl hwn yn berthnasol i bob penderfyniad gan fod eithriadau, er enghraifft, awdurdodiad yn ôl y gyfraith, perfformiad contract yr ydych chi'n rhan ohono.

9. Am faint mae CBSPO yn cadw data personol?

Mae CBSPO yn cadw data personol am gyn hired ag y bo'n angenrheidiol at y diben neu'r dibenion penodol y mae'n cael ei ddal, yn unol â Pholisi Cadw'r Cyngor.

10. Sail gyfreithlon dros brosesu eich data personol

Mae yna nifer o resymau pam y mae arnom angen casglu a defnyddio eich data personol:

- Rydych chi wedi gwneud cytundeb â'r Cyngor
- Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
- Efallai y bydd yn angenrheidiol i amddiffyn buddiannau allweddol i fywyd rhywun
- Rydych chi neu eich cynrychiolydd wedi cydsynio
- Mae'n angenrheidiol i'r Cyngor gyflawni tasg er budd y cyhoedd

11. Cysylltwch â ni

Gall unrhyw unigolyn sydd â phryderon ynghylch y ffordd y mae CBSPO yn trin ei ddata personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn y Cyngor fel a ganlyn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfa Wybodaeth, Swyddfeydd



Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Dinesig, Stryd Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

E-bost foi@bridgend.gov.uk

Ffôn 01656 643565

Gallwch hefyd godi pryderon gyda Chomisiynydd Gwybodaeth Cymru. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru

2il Lawr

Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399

E-bost: wales@ico.org.uk

Gwefan: <https://ico.org.uk/>